| | |
|---|---|
| **ARAITH GAN:** | Iwan Trefor Jones<br>ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| **AR Y PWNC:** | Bid Twf Posib ar gyfer Gogledd Cymru |
| **I GYFARFOD O:** | Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru a Mersi a Dyfrdwy yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru - Cyfarfod Agoriadol |
| **AR:** | 25 Mai, 2017 |

Diolch i chi am y gwahoddiad i fynychu a siarad yn y cyfarfod hwn. Rwyf yn falch iawn o weld bod y Grŵp wedi cael ei sefydlu.

Rwyf yma fore heddiw yn cynrychioli Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC). Mae'r Bwrdd yn dwyn ynghyd yr holl bartneriaid strategol allweddol sy'n gysylltiedig â datblygiad economaidd ledled Gogledd Cymru er mwyn hyrwyddo dull cydweithredol ar y cyd. Mae'r grŵp yn cynnwys y chwe Awdurdod Lleol, AB, AU, MDA a'r sector preifat.

Dyma rai o'r rhesymau pam y sefydlwyd BUEGC:

- yr angen i fynd i'r afael â'r rhwystrau i dwf cynhyrchedd ar draws y rhanbarth;
- i hyrwyddo dull mwy integredig a chydweithredol o ymdrin â datblygiad economaidd ar draws holl bartneriaid, gan weithio i agenda clir ac i un weledigaeth.

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Bwrdd wedi bod yn llunio Gweledigaeth Dwf a Bargen Dwf ar gyfer y rhanbarth, mewn ymateb i wahoddiad Llywodraeth y DU.

Mabwysiadwyd y Weledigaeth Dwf gan yr holl Awdurdodau Lleol, Addysg Bellach/Addysg Uwch a'r sector preifat tua diwedd y flwyddyn ddiwethaf. Mae hon yn un weledigaeth gydlynol ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth, gyda pherchnogaeth strategol, sydd wedi'i chyd-ddylunio er mwyn gosod cyd-destun clir ar gyfer cynlluniau allweddol ac ymyrraeth strategol ar gyfer economi Gogledd Cymru.

Y bwriad yw meddwl a gweithio'n rhanbarthol ac yn strategol.

Y bwriad yw manteisio ar gryfderau a chyfleoedd y rhanbarth, yn enwedig ar dechnolegau gwyrdd a charbon isel a datgloi potensial yr ardal drawsffiniol.

Y bwriad yw galluogi twf cynaliadwy a **chynhwysol** - sicrhau bod ein hymyrraeth yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hynny sy'n anodd eu cyrraedd yn y farchnad lafur, ynghyd â chreu swyddi gwerth uchel. Canolbwyntir yn benodol ar ffyniant i bawb a **chysylltu pobl** (yn enwedig y rhai sy’n byw mewn ardaloedd difreintiedig) â chyfleoedd gwirioneddol a dilys.

Y bwriad yw cael sylfaen digon eang ac i gynnwys meysydd polisi sy'n effeithio ar yr economi a chyflogaeth, yn enwedig tai, diwygio lles a thaclo tlodi.

Y bwriad yw alinio â pholisi'r DU a Llywodraeth Cymru, yn enwedig y Papur Gwyrdd ar y Strategaeth Ddiwydiannol a blaenoriaethau'r Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Economi Cymru. Rydym yn croesawu yn benodol y dull newydd “sy'n seiliedig ar le” a hyrwyddir gan yr Ysgrifennydd Cabinet.

Y bwriad yw ymdrin â chynllunio a datblygu mewn dull cydlynol yn yr ardal drawsffiniol - gan gysylltu Gogledd Cymru â Phwerdy'r Gogledd. Mae cydweithio trawsffiniol rhwng yr holl bartneriaid strategol i sicrhau darpariaeth effeithiol o brosiectau allweddol yn hanfodol.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddull "**Tîm Gogledd Cymru**", gyda phartneriaid yn cydweithio tuag at gyflwyno'r Weledigaeth Dwf. Rydym yn unedig – fel rhanbarth – i gyflawni pwrpas clir.

Rydym o'r farn y bydd y Weledigaeth Dwf yn cael ei **gyrru** gan fusnesau arloesol mewn clystyrau economaidd gwerth uchel. Dyma'r rhai yr ydym wedi'u hadnabod:

> Yn gyntaf, **clwstwr ynni** – o ystyried y cyfleoedd a gynigir gan brosiectau Wylfa Newydd, Trawsfynydd ac Ynni Gwynt a Llanwol Alldraeth. Fel rhanbarth, ni fydd un o'r lleoliadau arweiniol yn y DU ar gyfer cynhyrchu ynni a buddsoddiadau yn y gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig ag ynni.
>
> Yn ail, **clwstwr gweithgynhyrchu uwch** – adeiladu ar y rhwydwaith cryf o gwmnïau angori gyda phroffil rhyngwladol a mantais gystadleuol mewn awyrofod, deunyddiau, cerbydau modur ac electroneg. Fel rhanbarth, gallwn gynnig clwstwr gweithgynhyrchu uwch sy'n hynod gystadleuol ar lwyfan byd-eang.
>
> Yn drydydd, **clwstwr digidol** – gallwn ddod yn hwb o arbenigedd technoleg. Bydd hwn yn llunio sectorau arloesol newydd, gan adeiladu ar y manteision cystadleuol yn nhermau academia, ansawdd bywyd, prydferthwch naturiol ac isadeiledd.

Byddwn hefyd yn datblygu enw da i'r rhanbarth fel canolfan rhagoriaeth ar gyfer twristiaeth antur, drwy adeiladu ar gynlluniau buddsoddi diweddar a sefydlu portffolio o atyniadau gydol y flwyddyn sy'n cynnig swyddi o safon.

Dyma amcanion lefel uchel, ond mae'r weledigaeth hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu i greu'r amodau priodol i wireddu potensial clystyrau gwerth uchel o'r fath.

Mae pedwar cynllun gweithredu, yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, ond byddent yn cynnwys rhai o'r cynigion canlynol:

1. **Seilwaith Trafnidiaeth a Gwasanaethau**
   - gan gynnwys gwelliannau i'r A494, A483, Ffordd Osgoi Bontnewydd ar yr A487, 3ydd Pont dros y Fenai yn ogystal â gwytnwch yr A55
   - pecyn o welliannau i lein y rheilffordd, yn enwedig o ran cyflymder y lein, amlder a gwaith uwchraddio gorsafoedd, yn ogystal â **chysylltiadau i'r HS2**
   - trafnidiaeth integredig - Coridor Glannau Dyfrdwy, Bangor, Wrecsam a Choridor Llandudno/Rhyl

2. **Safleoedd, Eiddo a Thai**
   - dod â safleoedd strategol Parc Cybi, Bryn Cefni, Bryn Cegin, Parc Busnes Llanelwy, Porth y Gogledd, Warren Hall, Stad Ddiwydiannol Wrecsam ymlaen
   - seilwaith digidol (Superfast Cymru)
   - edrych am ffyrdd i hyrwyddo'r sector i ddod â safleoedd tai ymlaen

3. **Sgiliau, Diweithdra a Diwygio Cymdeithasol**
   - prentisiaethau, STEM
   - sgiliau mewn technoleg wyrdd
   - integreiddio â rhaglenni'r Adran Gwaith a Phensiynau
   - cyngor gyrfaoedd

4. **Cefnogi Busnes**
   - Hwb Twf Gogledd Cymru – cydleoli personél allweddol i ddarparu cymorth ar gyfer arloesedd, allforio a throsglwyddo gwybodaeth
   - marchnata Gogledd Cymru fel cyrchfan

Ein cred yw y bydd cyflawni'r weledigaeth yn arwain at gynnydd yng ngwerth economi Gogledd Cymru (GVA) o £12.8bn i £20bn.

Un o'r teclynnau allweddol i gefnogi cyflawniad y weledigaeth hon yw'r Fargen Dwf. Bydd hon yn rhaglen o gyd-fuddsoddiad - rhwng y rhanbarth, LlC a Llywodraeth y DU. Mae’r ffynhonnell yma o gyllido yn bwysicach fyth o ystyried oblygiadau Brexit.

Mae'r **sylfeini ar gyfer bid llwyddiannus** eisoes yn eu lle:

- mae gennym Weledigaeth Dwf sydd wedi cael ei derbyn yn dda;
- mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer bwrw ymlaen â'r Fargen Dwf yn datblygu'n dda. Mae cytundeb mewn egwyddor yn bodoli ymysg y chwe Awdurdod Lleol i sefydlu Cydbwyllgor Rhanbarthol – bydd hwn yn endid cyfreithiol;
- mae perthynas gadarnhaol a thrafodaethau gyda gweinidogion sifil allweddol yn LlC a Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen yn dda. Byddwn yn dechrau negodi'n ffurfiol tua diwedd mis Gorffennaf;
- mae gweithio mewn partneriaeth agos yn bodoli gyda Cheshire & Warrington LEP i sicrhau synergedd â'u bargen ddatganoli;
- erbyn hyn, mae swyddogion yn blaenoriaethu'r prif gynlluniau gweithredu fel eu bod yn unol â meini prawf y Fargen Dwf – rydym yn cydosod elfennau'r bid;
- **byddwn yn parhau** â dull "**Tîm Gogledd Cymru**". Byddwn yn sicrhau y bydd gan Ogledd Cymru gynnig rhanbarthol cryf i'r DU a LlC. Bydd yn "ardal ragoriaeth" gyda chlystyrau gwerth uchel yn rhoi hwb i gynhyrchedd a chyflogaeth - ar lefel Cymru a'r DU.

Edrychwn ymlaen at gydweithio â chi dros y misoedd nesaf i ddatblygu Bid Twf ar gyfer Gogledd Cymru o’r ansawdd uchaf.

Diolch.